# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 24 Tachwedd 2014**

Amser:
**14.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

## Agenda

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalen 1)

**CLA(4)-29-14 – Papur 1** – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

**CLA465 – Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014**
Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 12 Tachwedd 2014; Fe'i gosodwyd ar: 14 Tachwedd 2014; Yn dod i rym ar: 9 Rhagfyr 2014

## 3 Papur i'w nodi (Tudalennau 2 – 4)

**CLA(4)-29-14 – Papur 2** – Llythyr gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

**CLA(4)-29-14 - Papur 3** – Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

**Gorchymyn Adran 109: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2015**
(Tudalennau 5 - 24)
**CLA(4)-29-14 - Papur 4** – Gorchymyn Adran 109

## 5 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Ymchwiliad Deddfu (Tudalennau 25 - 47)

*(Amser a ddynodwyd: 14.00)*

Y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd

**CLA(4)-29-14 - Papur 5** – Tystiolaeth ysgrifenedig
**CLA(4)-29-14 -** Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Egwyl

## 6 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Ymchwiliad Deddfu

*(Amser a ddynodwyd: 14.45)*

Mick Antoniw AC;
Peter Black AC;
Bethan Jenkins AC;
Darren Millar AC

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir
24 Tachwedd 2014

CLA465 – Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud o dan adrannau 87, 105(2) a (3) a 106(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, yn darparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned yng Nghymru yn cael eu cynnal yn 2017 yn lle 2016. Mae'n gwneud hynny drwy roi "2017" yn y mannau priodol yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n pennu blynyddoedd etholiadau cyffredin cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned.

Eitem 3

Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Melding AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Tachwedd 2014

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 ("y Rheoliadau uwchraddio"). Mae angen y Rheoliadau hyn er mwyn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 i uwchraddio'r ffigurau ariannol yn unol â'r cynnydd mewn costau byw. Yn ogystal ag uwchraddio, bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud mân welliannau eraill i Reoliadau 2013.

Mae'r ffordd y caiff yr uwchraddio ei gyfrifo yn dibynnu ar y ffigyrau ariannol a nodir gan y Canghellor yn Natganiad yr Hydref, yn ogystal â'r amserlen uwchraddio y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei pharatoi ar gyfer budd-daliadau nawdd cymdeithasol rhyngberthynol, fel Budd-dal Plant a'r Credyd Cynilion.

Gwneir Datganiad yr Hydref ar 3 Rhagfyr 2014, ac rydym wedi cael ein hysbysu dros dro na fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cyhoeddi'r amserlen uwchraddio cyn 4 Rhagfyr. Ni fyddaf yn gallu gosod y Rheoliadau diwygio tan o leiaf 5 Rhagfyr felly. Mae hyn yn golygu nad oes modd cynnal trafodaeth lawn, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, tan 27 Ionawr 2015.

Er nad oes goblygiadau i hyn o ran y Rheoliadau eu hunain, mae'n cyflwyno her ymarferol i'r awdurdodau lleol gan fod rhaid iddynt gynnwys y ffigurau ariannol uwch yn eu Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drwy'r Cyngor llawn erbyn 31 Ionawr fan bellaf, a hynny er mwyn i'r ffigurau uwch ddod i rym yn y flwyddyn ganlynol.

Nid oes unrhyw ddarpariaethau sy'n caniatáu i awdurdodau lleol newid eu Cynlluniau yn ystod y flwyddyn. Nid oes mecanwaith, felly, er mwyn sicrhau bod awdurdod lleol yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

mabwysiadu'r ffigurau ariannol uwch os bydd Cyngor yn cyfarfod i fabwysiadu ei Gynllun cyn i'r Cynulliad drafod y Rheoliadau diwygio. Mae hyn yn golygu bod perygl na fydd pob awdurdod lleol yn defnyddio'r ffigurau uwch. Golyga hyn y gall ymgeiswyr o wahanol ardaloedd gael eu trin yn wahanol, ac y bydd rhai ymgeiswyr yn waeth eu byd gan nad yw'r cynnydd mewn costau byw yn cael ei gynnwys.

Rhoddwyd gwybod i'r awdurdodau lleol am yr amserlen ar gyfer llunio'r Rheoliadau diwygio, a gofynnwyd iddynt sicrhau bod ganddynt drefniadau i gynnwys y ffigurau ariannol uwch yn y Cynlluniau y byddant yn eu mabwysiadu.

Fodd bynnag, er mwyn galluogi awdurdodau lleol i baratoi a mabwysiadu'r ffigurau uwch, byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn fodlon ystyried y Rheoliadau ac adrodd arnynt cyn 27 Ionawr, a hynny er mwyn trefnu i gynnal y drafodaeth lawn yn gynharach. Buoch mor garedig â hwyluso'r paratoadau hyn at ddibenion uwchraddio Rheoliadau 2014-15.

Mae'r Rheoliadau diwygio yn rhai byr, a byddai fy swyddogion yn fwy na bodlon i weithio gyda'ch swyddogion chi i gefnogi'r broses graffu. Rwyf hefyd yn fodlon rhannu copi o'r Rheoliadau drafft gyda'r Pwyllgor. Rwy'n disgwyl y bydd y rhain ar gael erbyn 5 Rhagfyr, er ei bod yn bosibl mai dim ond ffigurau dros dro fydd ynddynt, gan ddibynnu pryd bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n cyhoeddi'r amserlen uwchraddio.

Efallai yr hoffai'r Aelodau wybod hefyd, oherwydd amser Datganiadau'r Hydref, ei bod yn debygol y byddwn mewn sefyllfa debyg yn y dyfodol wrth uwchraddio Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

**Theodore Huckle QC/CF**
**Y Cwnsler Cyffredinol/Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

David Melding AM
Chair, Constitutional Affairs
and Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

20th November 2014

Dear Mr Melding,

During my appearance before the Constitutional and Legislative Affairs Committee on Monday 17 November, I referred to recent comments made in the House of Lords by the Parliamentary Under-Secretary of State for Health, the Earl Howe, when responding to a probing amendment tabled by Baroness Finlay of Llandaff seeking that the Medical Innovation Bill only come into force in Wales with the consent of the Assembly.

Those comments were as follows:

> ‘The operative provisions of the [Medical Innovation] Bill relate entirely to modifying the law of tort, which is a reserved matter. The Bill can fairly and realistically be classified as relating to a non-devolved subject, and therefore not within the competence of the National Assembly for Wales.’ HL Deb 24 Oct 2014 col 916

As I indicated to the Committee my disagreement with what had been represented to Parliament, I thought it was right to be clear about the precise terms of the disputed comment. I hope that this is helpful.

Yours sincerely,

Theodore Huckle QC
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Phone/ffon 029 2082 3508
pscounselgeneral@wales.gsi.gov.uk



*Wedi’i argraffu ar bapur wedi’i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Fonesig Rosemary Butler AC
Dame Rosemary Butler AM

Llywydd
Presiding Officer

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: PO/RB/CW

30 Mehefin 2014

Annwyl David

**Tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch Deddfu yn y Pedwerydd Cynulliad**

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'ch ymchwiliad i ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad. Gan fod Comisiwn y Cynulliad yn darparu gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o graffu ar ddeddfwriaeth, ac i raddau llai, i ddatblygu a drafftio Biliau, mae'n briodol imi rannu ein sylwadau am y prosesau cysylltiedig.

Rwyf wedi ymateb i bob un o'ch cwestiynau ymgynghori cyffredinol, gan ddefnyddio'r cwestiynau mwy manwl i lywio'r ymatebion ehangach hyn (yn hytrach nag ymateb i bob un o'r gyfres olaf o gwestiynau yn unigol).

***1. Beth y gellir ei ystyried yn arfer da wrth ddrafftio Bil?***

Er nad oes model pendant o arferion gorau modern yn ein barn ni (a, hyd yn oed pe bai, byddai'n datblygu'n gyson), credwn y dylai deddfwriaeth, fel egwyddor gyffredinol, fod yn glir ar gyfer y gynulleidfa darged a, lle bynnag y bo'n bosibl, ar gyfer <u>pob</u> dinesydd, gan mai un o golofnau hanfodol democratiaeth yw y gall dinasyddion ddeall y deddfau y maent yn ddarostyngedig iddynt. Yn ein barn ni, anaml iawn y mae cyfiawnhad dros ddrafftio deddfwriaeth yn enwedig deddfwriaeth sylfaenol mewn ffordd sydd mor gymhleth a thechnegol fel ei fod, mewn termau ymarferol, yn annealladwy ac eithrio i arbenigwyr yn y maes.

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44 (0)29 2089 8230

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44 (0)29 2089 8230

Ar y cyfan, ein barn ni yw bod deddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei drafftio gan Lywodraeth Cymru yn bodloni'r safon hon, er bod lle i wella o hyd mewn rhai ffyrdd.

Rhai o'r pryderon ac arferion gwael sy'n deillio o waith drafftio'r Llywodraeth a ystyriwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad yw:

- Terminoleg anffodus. Er enghraifft, y defnydd o'r termau "hanner gwaed" (half blood) ac "anghyfreithlon" (illegitimate) mewn perthynas ag aelodau o'r teulu yn y Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Bil Aelod oedd hyn yn dechnegol, ond cafodd ei ail-ddrafftio yn ei gyfanrwydd gan y Llywodraeth, a oedd yn cefnogi egwyddor y Bil, drwy gyfrwng gwelliannau yn ystod Cyfnod 2; ymddangosodd y termau y cyfeirir atynt yn y Bil yn rhinwedd y gwelliannau hynny. Yn y diwedd, cafodd y termau hyn eu dileu o'r Bil drwy welliant, wedi i Aelodau fynegi pryder difrifol yn eu cylch;
- Diffiniad o dermau drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth y DU. Mae hyn yn gorfodi'r darllenydd i gyfeirio at fwy nag un ddogfen, ac - yn dibynnu ar yr union eiriad - bydd naill ai yn gwneud y diffiniad yn amodol ar unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth y DU (na chaiff ei groesawu, efallai, gan y Cynulliad) neu'n gorfodi'r darllenydd i wirio pa ddiffiniad oedd yn gymwys, yn neddfwriaeth y DU, pan gafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol - tasg feichus i aelodau o'r cyhoedd;
- Dibyniaeth ar ddeddfwriaeth flaenorol y DU fel model. Er enghraifft, roedd y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) wedi'i seilio'n agos iawn at Ddeddf 60-mlwydd-oed a chynhwyswyd gwendidau o'r ddeddfwriaeth honno, gan gynnwys diffiniadau a oedd yn achosi problemau;
- Diffyg cysondeb rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg, ac o fewn y fersiynau Cymraeg, o Filiau (er enghraifft y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Bil Tai (Cymru)) wrth eu cyflwyno. Gall hyn olygu bod cyfnod sylweddol o amser Pwyllgor a / neu amser y Cyfarfod Llawn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cywiriadau a allai fod wedi eu gwneud yn ystod y broses ddrafftio;
- Bil yn cael ei gyflwyno gyda gwallau (o ran drafftio a/neu bolisi), sydd angen gwelliant sylweddol ac felly'n rhwystro gwaith craffu gan danseilio Cyfnod 1 (gan fod y Bil yn newid), ac atal Aelodau rhag cyflwyno gwelliannau i fersiwn ddiweddar o'r Bil (gan ei fod ar yr un pryd yn cael ei ddiwygio'n drwm gan y Llywodraeth), ac yn lleihau'r amser sydd ar gael i drafod materion eraill, mwy sylweddol. Mae'n

bwysig gwahaniaethu rhwng y math hwn o welliant a mathau eraill o welliannau sydd i'w croesawu, er enghraifft y rhai sy'n gweithredu argymhellion neu ymrwymiadau a wnaed yn ystod Cyfnod 1, neu'r rhai a gyflwynwyd o ganlyniad i gyrraedd consensws gwleidyddol ar bwyntiau penodol o bolisi neu egwyddor;

- Camgymeriadau mewn gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, sydd wedyn angen eu cywiro drwy newidiadau argraffu (os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwneud hynny), neu welliannau pellach os oes camau gwelliannau ar gael, neu weithdrefnau deddfwriaethol eraill (is-ddeddfwriaeth neu welliant drwy gyfrwng Bil arall);
- Anghydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, a rhwng defnyddio'r weithdrefn negyddol, cadarnhaol a'r uwchgadarnhaol mewn is-ddeddfwriaeth. Mae pwyllgorau wedi mynegi pryder am natur fframwaith rhai Biliau (Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant). Maent hefyd wedi gwneud argymhellion ynglŷn â phenderfyniadau ynghylch pa weithdrefnau i'w defnyddio ar gyfer is-ddeddfwriaeth, a hynny gyda pheth llwyddiant. Byddai'n ddefnyddiol deall mwy am agwedd y Llywodraeth at ei phenderfyniadau ei hun am hyn. Mae pryderon am is-ddeddfwriaeth yn arbennig o bwysig o ystyried y diffyg craffu gan y Cynulliad ac ymgysylltiad y cyhoedd, beirniadaeth eich Pwyllgor o reoliadau penodol (er enghraifft, yn ddiweddar ar Gynlluniau Lleihau'r Dreth Gyngor), a'r ffordd y mae is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio weithiau yn lle deddfwriaeth sylfaenol (er enghraifft, i hwyluso'r gwaith o sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru - penderfyniad eithriadol o bwysig a fyddai, yn fy marn i, wedi elwa o'r gwaith craffu llawer llawnach y mae ein proses ar gyfer Biliau yn ei chaniatáu).

Er bod yr egwyddorion sy'n sail i'r pwyntiau hyn yr un mor berthnasol i ddeddfwriaeth a gyflwynir gan Aelodau eraill ag y maent i'r Llywodraeth, mae'n arbennig o bwysig, serch hynny, fod y Llywodraeth yn defnyddio arfer da. Y rheswm am hyn yw mai'r Llywodraeth sy'n drafftio'r mwyafrif helaeth o Filiau a gwelliannau a gellir dadlau bod ansawdd a chysondeb eu gwaith drafftio yn fwy pwysig na'r gwelliannau a gyflwynir gan Aelodau, sy'n aml yn fwy manwl o ran eu natur. Yn ogystal, gan mai'r Llywodraeth sy'n drafftio'r rhan fwyaf o Filiau, eu gwaith drafftio cychwynnol sy'n llunio'r seiliau i Aelodau eu defnyddio ar gyfer llunio eu gwelliannau. Mae Biliau'r Llywodraeth hefyd yn tueddu i fod yn ehangach ac yn fwy technegol eu natur na deddfwriaeth arall sydd fel arfer yn canolbwyntio ar faterion sy'n gulach yn

nhermau polisi ac nid oes angen gwybodaeth dechnegol fanwl ar eu cyfer. Y rheswm amlwg am hyn yw bod gan y Llywodraeth lawer mwy o adnoddau datblygu polisi ac adnoddau technegol na'r hyn sydd gan unrhyw Aelod, neu hyd yn oed y Comisiwn.

2. ***Pa effaith y mae model cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, sef y model rhoi pwerau, wedi'i chael ar ddrafftio Biliau? Beth a fyddai'n wahanol pe bai'r Cynulliad yn defnyddio model cadw pwerau?***

Mae'r model pwerau a roddir sydd gan y Cynulliad yn cynnwys llawer o enghreifftiau o orgyffwrdd o fewn meysydd pwnc, gan wneud problemau yn anochel yn ystod y gwaith o ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

Gellir gweld graddau llawn gwendid y setliad presennol drwy ein profiad o weithredu fel deddfwrfa ers 2011.

Ers eu sefydlu ym 1999, ni chafodd yr un Bil gan yr Alban na Gogledd Iwerddon ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys gan Swyddog Cyfraith y DU. Mewn cyferbyniad, mae tri o Filiau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael eu cyfeirio at y Goruchaf Lys ers 2011.

Er nad oes yr un setliad yn gwbl glir, byddai model pwerau a gedwir yn ôl yn sicr yn rhoi mwy o eglurder cyfreithiol na'r system sydd gennym ar hyn o bryd. Byddai'r model pwerau a gedwir yn ôl a argymhellir gan Gomisiwn Silk yn ei ail adroddiad yn ein rhoi ni ar sail ddeddfwriaethol debyg i Senedd yr Alban, a dylai ganiatáu i'r Cynulliad ddeddfu yn fwy effeithiol ac yn fwy hyderus, gan ganolbwyntio yn gyfan gwbl ar gyflawni gwell canlyniadau i bobl Cymru heb i setliad cyfansoddiadol amwys fod yn amharu arnynt.

O fewn cyfyngiadau'r setliad presennol, byddai o gymorth i'r Cynulliad gael yr hawl awtomatig i gynrychioli ei hun mewn achosion yn y Goruchaf Lys (a fyddai'n gofyn am newid i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a/neu i Reolau'r Goruchaf Lys). Efallai na fyddai'n briodol dibynnu ar gyfranogiad Llywodraeth Cymru mewn achosion o'r fath lle nad yw'n ymddangos bod y Llywodraeth yn cefnogi'r darpariaethau perthnasol (er enghraifft, mewn Bil Aelod, neu ddarpariaeth Bil y Llywodraeth a fewnosodwyd gan welliant nad yw'n welliant y Llywodraeth), neu pan mae'r Cwnsler Cyffredinol sydd wedi gwneud y cyfeirio.

Mae enghreifftiau penodol o anawsterau a gafwyd gyda Deddfau unigol yn cynnwys y canlynol:

- Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r gwaith o graffu ar Filiau Llywodraeth Cymru y byddai cymhwysedd ehangach yn galluogi materion i gael eu trin mewn ffordd fwy cyfannol. Er enghraifft, ni ellir gosod dyletswyddau ar fyrddau partneriaethau lleol am eu bod yn cynnwys y gwasanaethau prawf a'r heddlu, ac mae cymwyseddau'r Cynulliad ar gyfer y rhain yn gyfyngedig iawn. (Gweler y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru));
- Roedd pryderon ynghylch cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu ar gyfer yr iaith Saesneg wedi rhwystro datblygiad y Bil Ieithoedd Swyddogol (Cymru).

***3. Beth yw eich barn ar gynnwys y Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â Biliau a pha mor ddefnyddiol ydynt wrth egluro beth yw diben Biliau?***

***Byddai'n ddefnyddiol nodi a yw'r sylwadau a wneir yn rhai cyffredinol neu a ydynt yn ymwneud ag enghreifftiau penodol, wrth ateb y cwestiwn hwn.***

Mae Memoranda Esboniadol cynhwysfawr sydd wedi'u drafftio'n dda yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol ar ddeddfwriaeth. Wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu Bil Aelod, mae staff y Comisiwn yn rhoi sylw arbennig i'r wybodaeth a gaiff ei pharatoi ar gyfer y Memorandwm Esboniadol, fel y gellir gweld yn y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) a gyflwynwyd yn ddiweddar, lle roedd staff y Comisiwn wedi darparu cefnogaeth i'r Aelod wrth ddrafftio'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol.

Mae ansawdd y Memoranda Esboniadol a osodwyd gerbron y Cynulliad wedi bod yn amrywiol ac mae rhai wedi cael eu beirniadu gan bwyllgorau'r Cynulliad. Mae gwybodaeth ariannol yn aml yn brin neu nid yw'n argyhoeddi. Er enghraifft, awgrymodd y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) y byddai'r Bil yn niwtral o ran cost, a chafodd hyn ei gwestiynu gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei adroddiad Cyfnod 1. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau da hefyd, gan gynnwys y Bil Addysg Uwch (Cymru), lle cafodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol) ei ganmol gan y Pwyllgor Cyllid.

Mae argaeledd gwybodaeth yn ymwneud ag Asesiadau Effaith Hawliau Plant wedi cael ei godi gan y Pwyllgor Plant, Addysg a Phobl Ifanc ac mewn ymateb

i dystiolaeth gan y Comisiynydd Plant a Grŵp Monitro Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dogfennau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n llywio'r gwaith o baratoi Memoranda Esboniadol yw'r Asesiadau Effaith Hawliau Plant. Mae ymrwymiad y Llywodraeth, mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, i gyhoeddi'r dogfennau hyn fel mater o drefn, i'w groesawu.

Ceir rhai enghreifftiau eraill o wybodaeth nad yw ar gael mewn modd amserol ar gyfer gwaith craffu gan Bwyllgor. Gallai fod wedi bod yn ddefnyddiol cynnwys y tabl o ddiddymiadau a ddarparwyd yn ystod Cyfnod 1 o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), er enghraifft, yn y Memorandwm Esboniadol ar ddechrau'r broses.

4. ***Mewn system ddeddfwriaethol un siambr, pa mor werthfawr yw'r canlynol yn eich barn chi:***

   ***(a) Ystyried Biliau drafft cyn y caiff Bil ei gyflwyno'n ffurfiol;***

   ***(b) rhagor o amser ar gyfer gwaith craffu yng Nghyfnod 1;***

   ***(c) y cyfnod adrodd dewisol ar ddiwedd trafodion Cyfnod 3 (fel y cafwyd, er enghraifft, gyda'r Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)).***

Fel deddfwrfa un siambr, mae'n hanfodol bod gan y Cynulliad yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud gwaith craffu effeithiol ar ddeddfwriaeth. Mae hyn yn gynyddol yn cynnwys craffu cyn-cyflwyno gan Bwyllgorau Cynulliad ar gynigion deddfwriaeth y Llywodraeth a Biliau drafft, sy'n rhoi mwy o gyfleoedd, a hynny'n gyfleoedd cynharach i ddylanwadu ar ddatblygiad deddfwriaeth.

Yn ddiweddar, cynhaliodd pwyllgorau **waith cyn y broses ddeddfu** ar gynigion sy'n ymwneud â'r Bil Cymwysterau (Cymru), Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil yr Amgylchedd (Cymru). Cynhaliwyd gwaith craffu hefyd ar y Bil Cynllunio (Cymru) drafft, ac mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael sesiynau briffio ffeithiol, yn gyhoeddus, mewn perthynas â Biliau drafft a Phapurau Gwyn o fewn ei gylch gwaith.

Mae'r math hwn o graffu cyn y broses ddeddfu, boed ar ffurf Biliau drafft neu'n ddelfrydol hyd yn oed cyn bo drafft ar gael, yn helpu i atal y sefyllfa a gododd yn ystod hynt y Bil Addysg (Cymru). Cafodd yr holl Ran o'r Bil a oedd

yn ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig ei thynnu o'r Bil yng Nghyfnod 2 gan fod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi canfod yng Nghyfnod 1 nad oedd yn briodol i'w gynnwys yn y darn hwn o ddeddfwriaeth. Pe bai hyn wedi dod i'r amlwg yn ystod gwaith craffu cyn y broses ddeddfu, byddai'r Llywodraeth wedi cael y dewis o gael gwared ar y Rhan (neu beidio ei drafftio o gwbl) cyn cyflwyno.

Er gwaethaf y posibilrwydd o roi cyfle i'r Cynulliad ychwanegu gwerth at ddrafftio Biliau'r Llywodraeth cyn eu cyflwyno, mae **Cyfnod 1** yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r broses graffu. Mae'n galluogi Pwyllgorau i ystyried ac adrodd i ba raddau y mae ymgynghoriad ac unrhyw waith craffu cyn y broses ddeddfu wedi effeithio ar gynnwys y Bil, a llunio barn ar egwyddorion cyffredinol y Bil cyn y gwaith craffu llinell wrth linell a'r cyfle i Aelodau gyflwyno gwelliannau.

Mae'r amser sydd ei angen ar gyfer Cyfnod 1 yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Er enghraifft, gofynnodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am fwy o amser ar gyfer y Bil Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru) gan y byddai'r amserlen wedi arwain at gynnal ymgynghoriad dros gyfnod y Nadolig; dangosodd profiad o graffu ar y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) ei bod yn anodd ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fel awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned yn ystod y cyfnod hwn. Yn yr un modd, mae pwyllgorau wedi cael eu beirniadu gan randdeiliaid ynghylch eu ymgynghoriadau, yn enwedig o ran ymgynghori ar Filiau ym maes addysg dros gyfnod yr haf. Gofynnodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ddwywaith am amser ychwanegol ar gyfer Cyfnod 1 y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (ac fe'i cafodd), er bod yr amserlen wreiddiol, sef 15 wythnos waith, yn hirach na'r cyfnod a ddyrennir ar gyfer y mwyafrif o Filiau. Roedd angen yr estyniadau i ddarparu ar gyfer ymrwymiadau eraill y Pwyllgor, ehangder cwmpas y Bil, cymhlethdod y materion a'r ystod o dystiolaeth a gafwyd.

Roedd y gwaith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd yn cynnwys **Cyfnod Adrodd**, a oedd yn caniatáu:

- mwy o amser ar gyfer trafodaethau rhwng yr Aelod sy'n gyfrifol ac Aelodau eraill ynghylch y meysydd yr oedd Aelodau am weld gwelliannau;
- amser i Aelodau i fireinio a datblygu eu gwelliannau ar draws cyfnodau diwygio lluosog a cheisio consesiynau gan y Llywodraeth;

- amser i'r Llywodraeth i gyflwyno gwelliannau nad oeddynt yn barod mewn pryd ar gyfer Cyfnod 3; ac
- cyfle i ystyried effaith y swm sylweddol o ddiwygiadau a wnaed yng Nghyfnod 3, gyda gwelliannau pellach yn cael eu cyflwyno yn y Cyfnod Adrodd i ymateb i'r fersiwn ddiweddaraf o'r Bil.

Roedd angen Cyfnod Adrodd hefyd ar gyfer y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) a gynigwyd gan Aelod o ganlyniad i nifer fawr o welliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 3. Roedd y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) yn anarferol gan fod testun y Mesur fel y'i cyflwynwyd wedi'i ddileu a'i ddisodli yng Nghyfnod 2. Roedd hyn yn golygu bod Cyfnod 3, yn ei hanfod, wedi cyflawni'r rôl fyddai, fel arfer, wedi cael ei chynnal yng Nghyfnod 2, felly roedd angen cynnal Cyfnod Adrodd yn lle Cyfnod 3. Mae'r profiad hwn yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol i'r Llywodraeth gymryd rhan yn gynharach yn y broses o ddatblygu Biliau Aelodau y maent yn eu cefnogi. Mae hefyd yn codi'r cwestiwn a ddylai Bil sy'n destun newidiadau mor sylweddol yn ystod cyfnod diwygio (ac felly heb fod yn destun y lefel arferol o graffu gan Bwyllgor) gael ei gyfeirio yn ôl ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 (er na chaniateir hyn ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog). Pan wneir newidiadau sylweddol ar ôl Cyfnod 1, mae'n anodd i'r Cynulliad ymgymryd â gwaith craffu manwl, er enghraifft, o ran effaith ariannol y gwelliannau hynny.

Mae yna, wrth gwrs, bosibilrwydd o gynnal Cyfnod 3 Pellach a Chyfnod Adrodd Pellach er mwyn datrys materion technegol na ellir eu cynnwys o fewn y cyfnodau gwelliannau mwy cyffredin. Mae'n galonogol gweld bod y Llywodraeth yn fwyfwy yn amserlennu bwlch rhwng Cyfnodau 3 a 4 Biliau i ganiatáu ar gyfer gwneud trefniadau ar gyfer cyfnodau gwelliannau pellach os oes angen, a lleihau'r risg y caiff Bil sy'n drwm o welliannau gael ei basio heb gyfle i ganfod a chywiro gwallau drwy ddiwygio ymhellach.

Yn ddiweddar, mae Biliau Aelodau sy'n ymddangos fel nad ydynt yn cael cefnogaeth y Llywodraeth, wedi cael caniatâd i symud ymlaen drwy benderfyniad gan y Cynulliad (sef y Bil Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru), y Bil Addysg Ariannol a Chynhwysiant (Cymru) a'r Bil Isafswm Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru)). Er ei bod yn braf gweld cynigion Aelodau (yn ogystal â'r Llywodraeth) yn datblygu i fod yn ddeddfau drafft, mae'n bwysig asesu manteision hyn yn erbyn yr amser sydd ei angen ar Aelodau a rhanddeiliaid wrth ymgysylltu â'r broses, yn ogystal â'r goblygiadau adnoddau sylweddol ar gyfer staff y Comisiwn (wrth helpu'r Aelod sy'n Gyfrifol i ddatblygu a chefnogi'r Biliau hyn, yn ogystal â hwyluso gwaith craffu'r Pwyllgor). Mae yna

gyfle o ran cost hefyd o ran capasiti pwyllgorau i graffu ar Filiau sydd â chefnogaeth eang, ac i gynnal ymchwiliadau ar faterion polisi ehangach fel rhan o'u gwaith o ddwyn y Llywodraeth i gyfrif. Efallai y bydd yn briodol cyn y Pumed Cynulliad i edrych ar y prosesau ar gyfer Biliau Aelodau yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn. Er enghraifft, byddai'r angen am wybodaeth ychwanegol o ran bwriadau polisi yn ystod y cyfnodau hyn yn galluogi Aelodau, os yn llwyddiannus, i ganolbwyntio ar fireinio a drafftio cyn cyflwyno yn hytrach na cheisio gwneud hyn yn ogystal â datblygiad polisi sylfaenol.

***5. Beth yw eich barn ar yr angen am waith craffu wedi'i gwtogi ar Filiau, ac effaith hynny? Wrth feddwl am y mater, efallai y byddwch am ystyried y trefniadau craffu a oedd yn berthnasol i'r Biliau canlynol yn y pedwerydd Cynulliad:***

- ***(a) y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) (defnyddiwyd gweithdrefnau ar gyfer Biliau Brys y Llywodraeth);***
- ***(b) y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (hepgorwyd gwaith craffu gan bwyllgor yng Nghyfnod 1);***
- ***(c) Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 (hepgorwyd gwaith craffu gan bwyllgor yng Nghyfnod 1).***

a

***6. Beth yw eich barn ar allu'r Cynulliad i roi Biliau ar y llwybr carlam, o fewn ei weithdrefnau presennol?***

Efallai y bydd ystod o sefyllfaoedd lle mae'n gyfansoddiadol briodol i gyflymu hynt Mesur, er enghraifft Cyfnod 2 byrrach neu osgoi Cyfnod 1 (cyfeirir at hyn fel arfer fel "llwybr carlam"), neu mewn amgylchiadau eithriadol, weithdrefnau brys i alluogi darpariaethau cyfreithiol brys i gael eu gweithredu. Mae'n iawn bod gan y Cynulliad yr hyblygrwydd i gytuno i hyn, naill ai drwy'r Pwyllgor Busnes (ar gyfer amserlennu cyfyngedig) neu drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn (ar gyfer Biliau Brys).

Mae'n amlwg mewn sefyllfaoedd o'r fath mai mater i'r Aelod sy'n Gyfrifol yw cyfiawnhau ei gynnig i wyro oddi wrth y drefn arferol a pherswadio'r Aelodau hynny sy'n gysylltiedig â gwneud y penderfyniad i fwrw ymlaen â'i gynnig ai peidio. Yn benodol, mae'n bwysig bod yr Aelodau'n cael gwybod am y

rhesymau pam y gall mater o bwys cyhoeddus neu bryder gweinyddol ddod yn fater brys yn gyflym, a hynny i'r fath raddau y gallai gwaith craffu llawn ar y ddeddfwriaeth berthnasol beryglu'r canlyniadau a geisir ar gyfer pobl Cymru.

Mae'n bwysig bod y risgiau i enw da a goblygiadau o ran adnoddau o ran defnyddio gweithdrefnau carlam a gweithdrefnau brys, yn cael eu hystyried yn llawn wrth wneud penderfyniadau o'r fath, yn enwedig os canfyddir yn ddiweddarach bod y rhain yn amhriodol. Y gobaith yw y bydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fil y Sector Amaethyddol (Cymru) a'r Ddeddf Rheoli Ceffylau (Cymru) i benderfynu a oedd cyfiawnhad, o edrych yn ôl, dros lwybrau carlam ar gyfer y darnau hyn o ddeddfwriaeth ac/neu a oeddynt yn effeithiol. Mae Aelodau wedi codi pryderon yn y gorffennol, mewn pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn, am y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau Fil hwn.

***7. Beth yw eich barn ar gapasiti Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu?***

Cryfder craidd system bwyllgorau'r Cynulliad fel y'i gweithredwyd ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad yw bod y Pwyllgorau'n gyfrifol am graffu ar bolisi a deddfwriaeth gyda'u cylchoedd gwaith. Mae hyn yn galluogi Aelodau i ddefnyddio arbenigedd polisi i lywio gwaith craffu deddfwriaethol.

O ran arbenigedd, mae gallu Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad (o ran yr Aelodau a'r staff) wedi gwella dros gyfnod y Pedwerydd Cynulliad. Ar lefel swyddogol, caiff arfer da a gwersi a ddysgwyd eu rhannu er budd pawb, i gyd-fynd â'r corff o wybodaeth a adeiladwyd drwy waith craffu ac adroddiadau pwyllgorau.

O ran capasiti corfforol, mae pryderon ar lefelau gwleidyddol a swyddogol. Carfan gymharol fach o Aelodau sydd gan y Cynulliad nad ydynt yn Aelodau o'r Llywodraeth i graffu ar raglen lawn o Filiau mewn system un siambr. Nid oes amheuaeth na fyddai cynnydd yn nifer yr Aelodau, fel y rhagwelir gan Gomisiwn Silk ac eraill, yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r Cynulliad i ddeddfu, o ran rhannu'r llwyth gwaith yn fwy effeithiol, ond hefyd o ran caniatáu mwy o gyfleoedd i Aelodau ddatblygu eu harbenigedd a'u gwybodaeth ymhellach.

Wrth i'r broses ddeddfwriaethol aeddfedu, mae'r galwadau ar wasanaethau Comisiwn - yn ogystal â Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, sydd â rôl

allweddol i'w chwarae - yn cynyddu. Er enghraifft, mae Aelodau yn cyflwyno mwy o welliannau, ac yn defnyddio mwy o'r cyfnodau sydd ar gael i wneud hynny; maent hefyd yn cynnwys mwy o destun esboniadol gyda gwelliannau. Mae'r datblygiadau hyn i'w croesawu, ond mae goblygiadau o ran adnoddau. Ar ben hynny, mae'r cynnydd yn nifer y Biliau y mae'r Cynulliad yn craffu arnynt ar yr un pryd (er ar wahanol gyfnodau) yn rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau'r Comisiwn.

Mae'n bleser nodi bod y Cynulliad, o fewn ein cyfyngiadau presennol, eisoes wedi llwyddo i basio Bil a gyflwynwyd gan y Comisiwn, yn ogystal â Biliau Aelodau ynghyd â Biliau'r Llywodraeth a oeddy n ymdrin â materion proffil uchel (fel Trawsblannu Dynol) a heriau polisi a chyflwyno cymhleth (fel Gwasanaethau Cymdeithasol). Mae gweithdrefnau hefyd yn bodoli i bwyllgorau gyflwyno Biliau, er nad yw hyn wedi digwydd eto a gall fod yn broblem am resymau capasiti.

Dylid hefyd groesawu ymdrechion pwyllgorau i wneud gwaith craffu ar ôl deddfu (fel y mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i drefnu yn yr hydref ar y Bil Iechyd Meddwl). Dylai barhau i fod yn fater i bwyllgorau unigol benderfynu ar lefel a natur y gwaith craffu hwn yng ngoleuni eu blaenoriaethau a'u pwysau amser eu hunain, ond gall fod yn ddefnyddiol iddynt ystyried eu dull gweithredu pan fyddant yn cynnal gwaith craffu Cyfnod 1. Efallai y byddant am ystyried craffu ar Orchmynion Cychwyn, er enghraifft, lle mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth heblaw dyddiad cychwyn (e.e. darpariaethau trosiannol, arbed neu ddarpariaethau eraill), yn enwedig gan nad yw cynnwys darpariaethau o'r fath yn cael ei ystyried yn arfer gorau.

***8. Beth yw eich barn ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli'r rhaglen ddeddfwriaethol?***

Byddai o gymorth i bwyllgorau wrth gynllunio eu gwaith craffu ar Filiau'r Llywodraeth (a rhanddeiliaid wrth ymgysylltu) pe bai rhagor o wybodaeth ar gael yn gyhoeddus (gan gynnwys ar wefan Llywodraeth Cymru) yn gynharach yn y broses ddatblygu. Rydym hefyd yn ymwybodol o enghreifftiau o Filiau yn llithro oddi ar y rhaglen ddeddfwriaethol neu'n newid o ran cwmpas ar gyfnod cymharol hwyr yn y broses ddatblygu (gan gynnwys dau a gafodd eu rhannu yn beth a fydd, yn y pen draw, yn bedwar Bil, cyn cyflwyno'r ddau gyntaf - sef Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac Addysg Bellach). Gall fod yn ddefnyddiol i gynnwys pwyllgorau yn gynharach, fel y trafodwyd

uchod, er mwyn helpu i sicrhau bod penderfyniadau o'r fath yn seiliedig ar waith polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth glir yn ogystal â materion capasiti.

Mae'r Cynulliad yn wynebu nifer fawr o Filiau dros y misoedd nesaf, a hynny mewn nifer fach o feysydd polisi. Mae'n anochel y bydd hyn yn golygu llwyth gwaith anghymesur o uchel ar gyfer rhai o'n pwyllgorau, a bydd yn cyfyngu ar eu gallu i gyflawni swyddogaethau craffu eraill - yn benodol, dwyn y Llywodraeth i gyfrif am y modd y mae'n arfer y pwerau eang sydd ganddi eisoes. Mae'r penllanw hefyd yn cyd-daro â chyfnod o graffu ar y gyllideb. Efallai fod hyn yn fater y dylai'r Llywodraeth ei ystyried fel rhan o'i chynllunio strategol.

Byddai'n ddefnyddiol ymchwilio maes o law i ba mor effeithiol yw deddfwriaeth o ran cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru (fel y Rhaglen ar gyfer ymrwymiadau'r Llywodraeth a chanlyniadau ehangach) o'i gymharu â dulliau polisi eraill. Nid yw meysydd polisi sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes, er enghraifft (gydag eithriadau nodedig fel Teithio Byw) yn gyffredinol yn bynciau deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth hyd yn oed.

Mae'n bwysig bod digon o amser yn cael ei ganiatáu i drafod gwelliannau a gyflwynir yng Nghyfnod 3 neu Gyfnod Adrodd yn y Cyfarfod Llawn. Er bod yr amser sydd ei angen i gael dadl o'r fath yn anodd ei ragweld oherwydd ei fod yn dibynnu ar y grwpiau a chyfraniadau'r Aelodau, mae nifer y gwelliannau a phrofiad blaenorol yn ddangosyddion defnyddiol. Ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Bil Tai (Cymru), arweiniodd y nifer fawr o welliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 (gan gynnwys nifer o gywiriadau drafftio) at orfod cynnal dadleuon mewn mwy nac un Cyfarfod Llawn. Gallai hyn fod wedi cael ei gynllunio fwy ymlaen llaw, hynny yw, wrth iddi ddod yn glir yn ystod y cyfnodau cyflwyno y byddai nifer sylweddol o welliannau yn cael eu cyflwyno. Ni ddylai'r Llywodraeth gymryd yn ganiataol y bydd y Cynulliad yn eistedd yn hwyrach yn y nos i ddarparu ar gyfer dadleuon Cyfnod 3 neu Gyfnod Adrodd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

9. ***Os ydych wedi cael profiad o ddilyn trafodion yn y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau wrth iddynt graffu ar Filiau, neu wedi cymryd rhan yn y broses, beth yw eich barn ar y profiad hwn a pha welliannau, os o gwbl, y gellid eu gwneud?***

Rydym yn casglu ac yn ymateb i dystiolaeth anecdotaidd o sut mae rhanddeiliaid yn gweld eu profiadau o ymgysylltu â'r broses ddeddfwriaethol. Er enghraifft, o ganlyniad i adborth a gafwyd wrth graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rydym yn archwilio sut y gallwn gynhyrchu dogfennau mwy hygyrch, yn arbennig o ran bodloni gofynion grwpiau â nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Bu swyddogion y Comisiwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a oedd wedi dilyn Cyfnod 1 o'r Bil hwnnw, ond a'i cafodd yn anodd dilyn cyfnodau'r gwelliannau, a'u helpu i ddeall y gweithdrefnau sy'n rhan o'r broses a dysgu mwy am ffyrdd o ymgysylltu ag Aelodau.

Gobeithio bod y dystiolaeth hon o ddefnydd ichi wrth gynnal eich ymchwiliad, a byddwn yn hapus i roi rhagor o wybodaeth a/neu egluro unrhyw un o'r pwyntiau yr wyf wedi'u gwneud uchod maes o law pe bai hynny o gymorth.

Yn gywir

Rosemary

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Llywydd**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon